**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (15)**

**Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf 2002**

# AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Etholiadau i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

**- *Ni symudir yr eitem hon.***

**Eitem 2**
*Bydd Y Trefnydd yn cynnig cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn gerbron y cynnig heb ddyddiad trafod canlynol a gyflwynwyd:*
*NNDM1110 Carwyn Jones* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Christine Chapman (Llafur) i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

**Eitem 3**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**

Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 4**
**Datganiad: Ymateb i adolygiad polisi Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar Drafnidiaeth Gyhoeddus**

**Eitem 5**
**Datganiad Busnes:**

**Y Trefnydd**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 6**
**Cymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 27, Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid 2002**

*NDM1097* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2002.

*NDM1098*

**-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 27.2 (iii), yn ystyried Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2002.

Cliciwch yma i weld Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid 2002

**Eitem 7**
**Dadl ar hynt datblygu strategaethau ar gyfer Coetiroedd, Biomàs a Garddwriaeth**

*NDM1099* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn croesawu'r bwriad i gyhoeddi cynlluniau gweithredu ar gyfer y Sectorau Coetiroedd, Biomas a Garddwriaeth ac yn rhoi ei gymeradwyaeth i sefydlu grwpiau strategaeth i oruchwylio'r broses o roi'r Cynlluniau ar waith.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:*

**(1)+(2) +(3)**
**(4)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn gresynu na wnaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod ei dair blynedd cyntaf gymryd unrhyw gamau at ddefnyddio biomas i gynhyrchu trydan, er bod arian ar gael i ddatblygu ynni adnewyddadwy o wastraff coedwigoedd a chnydau ynni.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn pwysleisio'r angen i ddatblygu strategaeth gadarn ar gyfer cnydau ynni fel cyfle i ffermwyr arallgyfeirio

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi mai dim ond rhyw 70% o'r grantiau a oedd i fod wedi'u dyrannu erbyn hynny oedd wedi'u dyrannu i Fesur 3, Blaenoriaeth 5 Rhaglen Amcan Un (Coedwigaeth) ddiwedd mis Ebrill, a dylai Llywodraeth y Cynulliad roi llawer mwy o flaenoriaeth i ddefnyddio'n coetiroedd a'n coedwigoedd yn llawn.

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw bod buddiannau'r sector preifat yn cael eu cydnabod yn llawn ym mhob un o'r cynlluniau gweithredu a bod cynrychiolwyr o'r sector preifat yn cael eu cynnwys ym mhob un o'r grwpiau strategol.

**Eitem 8**
**Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru**

*NDM1100* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn nodi diffygion fframwaith presennol y cwricwlwm, gan gynnwys ei natur or-benodol a'i feichiau biwrocratig llethol;

2. Yn cydnabod bod angen datblygu cwricwlwm sy'n ymateb yn llwyr i anghenion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol penodol Cymru; ac

3. Yn galw ar Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i ddechrau'r gwaith ymchwil ac ymgynghori angenrheidiol fel y gellir datblygu cwricwlwm newydd cyn gynted ag y bo modd.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

**(1)**
**(2)**

**Gwelliant 1 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol" a rhoi yn eu lle:
1. Yn croesawu'r weledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru, a'r ymrwymiad iddi, fel ag a nodir yn Y Wlad sy'n Dysgu ;
2. Yn croesawu'r datblygiadau yn y cwricwlwm a'r ffaith eu bod yn ymateb i anghenion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru ;
3. Yn cymeradwyo'r modd y caiff polisïau eu datblygu a'u rhoi ar waith mewn ymgynghoriad â'r holl garfanau perthnasol.
"Gellir gweld "Y Wlad sy'n Dysgu" ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiad hwn: http://cynulliad/education/lifelonglearn/pdfs/thelearningcountry-w.pdf . Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes i sicrhau mwy o hyblygrwydd yn y cwricwlwm i ganiatáu i ysgolion ddatblygu agenda arbenigol.

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 4 Gorffennaf 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**